**Conwy Diogelach / Safer Conwy**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-social Behaviour**
**Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai / Regulatory & Housing Services**
*Pennaeth Gwasanaeth/Head of Service – Peter Brown & Superintendent Sian Beck*

Swyddfa Dinesig, Ffordd Abergele, BAE COLWYN LL29 8AR
Civic Offices, Abergele Road, COLWYN BAY LL29 8AR

***Gweithio gyda'n gilydd i wneud ein cymuned yn ddiogelach***
***Working together to make our community safer***

RESIDENT / PRESWYLYDD

Gofynnwch am / Please ask for: **Rhian Owen / Linda Jones**
☎ **01492 575177 / 01492 575956**
🖷 **01492 575204**
💻 **rhian.owen@conwy.gov.uk / linda.jones2@conwy.gov.uk**

Ein Cyf / Our Ref: **ASB/SR375934**
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: **25 Gorfennaf 2017**

Annwyl Syr/Fadam

**GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS ARFAETHEDIG**
**LLWYBR Y MUL – BAE COLWYN**

Fel preswylydd neu berchennog busnes yn yr ardal mae'n bosib eich bod yn ymwybodol o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n amgylchynu'r ardal a elwir yn Lwybr y Mul, Bae Colwyn.

Mae'r problemau'n cynnwys grwpiau o bobl ifanc yn ymddwyn yn swnllyd, gan achosi aflonyddwch a niwsans i'r preswylwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd sy'n gwneud gweithgareddau cyfreithiol yn yr ardal. Mae Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda'i gilydd yn ceisio mesurau er mwyn mynd i'r afael â'r ymddygiad hwn er budd trigolion ac ymwelwyr yn yr ardal.

Ym mis Hydref 2014 cyflwynwyd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth cyflwynwyd Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Mae hyn yn caniatáu Awdurdodau Lleol i osod gwaharddiadau neu anghenion ar ardaloedd penodol er mwyn caniatáu i ddinasyddion sy'n cadw at y gyfraith fwynhau ardaloedd cyhoeddus heb gael eu heffeithio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus newydd yn cyflwyno gwaharddiadau a gobeithir y bydd yn atal yr ymddygiad ac yn galluogi Swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru i ddelio'n fwy llym â throseddwyr ar adeg cyflawni'r drosedd.


Felly rydym yn cysylltu â chi fel rhan o'r broses ymgynghori angenrheidiol ar gyfer y cais am y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus arfaethedig amgaeedig ar gyfer yr ardal hon.

Bydd y cyfnod ymgynghori ar agor am 28 diwrnod o'r 26 Gorffennaf 2017, y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau fydd 23 Awst 2017.

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, gwnewch hynny yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda erbyn 23 Awst 2017, gan nodi'r rhesymau dros eich gwrthwynebiad, a'u hanfon ar e-bost at SaferConwy@conwy.gov.uk neu drwy'r post at Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8AR.

Os oes gennych ymholiadau am y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus arfaethedig peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni ar y manylion cyswllt ar ben y llythyr hwn.

Yn ddiffuant



**Rhian Owen & Linda Jones**
**Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**